Jig-so

Cysyniadau:	**Cyfeillgarwch, gwrthdrawiad, meddwl am eraill.**
Amcan:	**Dangos fel mae'r pedair efengyl yn rhoi darlun cyflawn i ni o fywyd Iesu.**
Cyfarpar:	**Torri llun yn ddarnau fel jig-so. Y Beibl. Y pedair efengyl – Mathew, Marc, Luc ac Ioan.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant faint ohonyn nhw sy'n hoff o wneud jig-so. Dangos bocs o ddarnau bach o jig-so.

● Mi ydw i wedi gwneud jig-so. Torri darlun yn ddarnau – ryw chwech i wyth o ddarnau. Dangos y darnau fesul un a chael y plant i ddyfalu beth yw'r darlun. Gall y darlun gorffenedig fod yn ddarlun o unrhyw beth.

● Nid yw'n rhwydd dweud beth yw'r darlun cyfan ddim ond wrth weld un darn ar y tro. O roi'r darnau at ei gilydd mae'r darlun yn dod yn glir.

Trafodaeth bellach:

● Dangos copi o'r Beibl. Yn hytrach na thrafod ar hyd ac ar led mae'n well dweud bod y Beibl yn dweud hanes Iesu Grist. Mae'r Beibl wedi'i rannu'n ddau: Yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Mae hanes Iesu yn y Testament Newydd.

● Yn y Testament Newydd mae 4 llyfr sy'n cael eu galw gyda'i gilydd yn Efengylau. Dyma enwau y 4 Efengyl – Efengyl Mathew, Efengyl Marc, Efengyl Luc ac Efengyl Ioan. Ystyr efengyl ydi 'newyddion da'.

● Mae Mathew, Marc, Luc ac Ioan wedi ysgrifennu hanes Iesu Grist. Ond mae'r pedwar awdur wedi rhoi darlun ychydig bach yn wahanol i ni o fywyd Iesu. Dim ond Mathew a Luc sy'n rhoi hanes geni Iesu i ni. Mae'r pedair efengyl yn cofnodi bod Iesu wedi marw ar y groes.

Stori:

Efengyl Luc yn unig sy'n adrodd y stori hon:

Un diwrnod daeth dyn at Iesu i wrando arno'n ateb cwestiynau am Dduw. Roedd wedi clywed bod rhai yn dilyn Iesu am ei fod yn dweud pethau gwahanol i'r bobl grefyddol eraill.

'Athro,' meddai. 'Beth sydd raid i mi ei wneud i gael bywyd llawn?'

'Beth mae cyfraith Duw yn ei ddweud?' gofynnodd Iesu iddo.

Atebodd y dyn, 'Caru Duw â'th holl galon, a charu dy gymydog yn union fel rwyt ti'n dy garu dy hun.'

'Felly, rwyt ti'n gwybod yr ateb,' meddai Iesu wrtho.

'Ond pwy ydi fy nghymydog?' gofynnodd y dyn.

'Mi adrodda i stori wrthyt ti,' meddai Iesu. 'Unwaith, roedd dyn yn cerdded ar ffordd unig a pheryglus o Jerwsalem i Jericho. Daeth lladron heibio ac ymosod arno gan ddwyn ei arian a'i ddillad a'i adael yno'n hanner marw ar ochr y ffordd.

'Yn nes ymlaen, daeth un o weithwyr y deml heibio a gwelodd y dyn ar ochr y ffordd ond penderfynodd beidio â'i helpu. Aeth heibio iddo yr ochr arall.

'Ymhen amser wedyn, daeth un arall o weithwyr y deml heibio. Gwelodd yntau'r dyn oedd wedi'i glwyfo, ond arhosodd o ddim.

'Yn olaf, daeth Samariad, un o elynion yr Iddewon, heibio. Pan welodd y dyn ar ochr y ffordd arhosodd yno i'w helpu. Rhoddodd gadachau ar ei friwiau, ei godi ar ei asyn, a mynd â fo i westy cyfagos. Rhoddodd ychydig o arian i'r gwesteiwr i ofalu amdano nes y byddai'r dyn yn gwella.'

'Pan ddof yn ôl, mi rof ragor o arian i ti,' dywedodd.

Yna gofynnodd Iesu i'r dyn oedd wedi gwrando ar y stori:

'Pa un o'r rhain oedd yn gymydog da i'r dyn oedd wedi'i anafu?'

'Hwnnw roddodd help iddo,' meddai'r dyn.

'Mae'n rhaid i tithau wneud yn union yr un fath,' meddai Iesu.

Dyna un stori lle mae Iesu'n dweud bod rhaid i ni garu'n gilydd.

Dyma stori arall am Iesu, o Efengyl Luc, lle mae Iesu'n flin ac yn gwylltio:

Stori:

Ar ôl cyrraedd dinas Jerwsalem, aeth Iesu i'r deml. Gwelodd yno bobl oedd yn gwneud elw iddyn nhw eu hunain, a theimlai'n ddig iawn tuag atyn nhw.

Gafaelodd yn y byrddau fesul un, a'u troi ben i waered. Tasgodd y darnau arian i bob cyfeiriad.

'Tŷ i Dduw ydi hwn!' meddai. 'Lle arbennig i bobl weddïo ac addoli Duw. Ond rydych chi wedi'i wneud yn lle anonest, yn ogof i ladron a phobl ddrwg!'

Emyn: Dewch i garu Iesu Grist: Mwy o Glap a Chân 86

Trafodaeth:

- Dau ddarlun gwahanol. Iesu'n dweud bod rhaid i ni garu ein gelynion.

- Oedd hi'n iawn bod Iesu wedi gwylltio yn y deml?

Myfyrdod/Gweddi:

Diolch, O Dduw, am y pedair efengyl sydd fel darnau o'r jig-so yn rhoi darlun llawn i ni o Iesu Grist. Diolch. Amen.